

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
DYDDIAD:	15.1.2014
TEITL YR ADRODDIAD:	Bwriad i sefydlu Bwrdd Cyflawni Integredig ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Ynys Môn
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Derbyn Barn ar Gofyn i Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn gymeradwyo sefydlu Cyd-Fwrdd Cyflawni ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Ynys Môn
ADRODDIAD GAN:	Gwen Carrington, Cyfarwyddwr Cymuned
CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL:	Cyfarwyddwr Cymuned

Pwrpas:

Credir y gellid cwrdd ag anghenion iechyd a gofal pobl Ynys Môn yn well drwy sicrhau integreiddiad gwell rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau'r awdurdod lleol.

Er mwyn hwyluso'r broses hon, a darparu strwythur llywodraethu cadarn, cynigir sefydlu Bwrdd Cyflawni Integredig i lywio prosesau sicrhau ansawdd a datblygu gwasanaethau.

1. Cefndir:

Yn ystod 2010 cyflwynodd Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gais am gyllid o Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Sicrhawyd cyllid yn Hydref 2011 i gynorthwyo'r Prosiect Fframwaith Gwella Cydweithio. Prif nod y prosiect yw gyrru trawsnewid mewn gwasanaethau a gwella cyflawniad yn y sector cyhoeddus trwy gydweithio, integreiddio a rhannu adnoddau a datblygu Fframwaith Llywodraethu integredig cadarn. Nod y fframwaith arfaethedig yw cael gwared ar ffiniau rhwng sefydliadau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin a rhannu cyllidebau ac adnoddau eraill er budd dinasyddion Ynys Môn.

Agwedd allweddol ar y prosiect yw datblygu fframweithiau datblygu gwasanaeth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a sefydlu cytundebau ffurfiol ar eu cyfer (megis trefniadau comisiynu ffurfiol, prosiectau a gyllidir ar y cyd, Cytundebau Adran 33 ac ati ar gyfer rhannu adnoddau neu integreiddio gwasanaethau).

Sefydlwyd Bwrdd Prosiect yn ystod 2012 i weithredu fel y prif gorff ar gyfer goruchwyllo, cynllunio a monitro'r prosiect. Bydd hyn yn cynnwys swyddogion allweddol o ystod o bartneriaid.

Cynhaliwyd gweithdy ar 15 Mawrth, 2013 gydag arweinwyr a rheolwyr strategol o BIPBC ac Uwch Dîm Rheoli Cyngor Sir Ynys Môn. Trafodwyd partneriaethau, datblygu ardaloedd a meysydd blaenoriaeth (gan gynnwys gyrrwyr polisi a gwleidyddol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol).

Y weledigaeth ar y cyd yn dilyn y gweithdy hwn ar gyfer trigolion Ynys Môn oedd:

- Byw bywydau iach, cyflawn, diogel ac egnïol
- Ffynnu, blodeuo a bod yn llewyrchus
- Penderfynu eu hiechyd, eu gofal cymdeithasol a'u lles eu hunain (meddyliol a chorfforol)
- Perchenogaeth a chyfrifoldeb am eu hiechyd, eu gofal cymdeithasol a'u lles eu hunain
- Byw mewn cymunedau grymus, egnïol a gwydn

Gyda bwriad ar y cyd i ganolbwyntio ar:

- Trawsnewid ansawdd bywyd yn ein hardaloedd
- Gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl
- Darparu llwybr cyfan o wasanaethau
- Gwella iechyd a lles y boblogaeth
- Torri'r cylch o ddibyniaeth ar wasanaethau statudol

Prif argymhelliad y gweithdy hwn oedd y bwriad i ddatblygu Bwrdd Cyflawni Integredig ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymunedol a Gofal yn Ynys Môn.

Mae'r papur briffio hwn yn manylu ar y trosolwg arfaethedig ar gyfer datblygu Bwrdd Cyflawni o'r fath – gan gynnwys yr achos dros newid.

2. Nodau ac Amcanion:

Nodau ac amcanion datblygu Bwrdd Cyflawni Integredig ar gyfer gwasanaethau lechyd a Gofal Cymunedol ar yr Ynys yw gweithio tuag at ddarparu 'gwasanaethau sengl'. Mae hynny'n golygu aliniad gwell rhwng cynlluniau busnes, cyllidebau a diwyllianau. Bydd y Bwrdd arfaethedig yn cynnwys rhoi sylw i ffyrdd arloesol o rannu fframweithiau cyllidebol ar gyfer Ynys Môn i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Bydd y cynnig hwn yn canolbwyntio ar bartneriaethau i bwrpas clir - partneriaethau sy'n gynhyrchio ac sy'n darparu fframweithiau ar gyfer integreiddio sy'n rhoi'r dinesydd wrth galon popeth yr ydym yn ei wneud.

Yn sylfaenol, rydym yn credu y bydd y Bwrdd Prosiect yn cefnogi:

1. Gwelliannau mewn gwasanaethau ar gyfer pobl Ynys Môn
2. Darparu fframweithiau ar gyfer gwasanaethau integredig gyda chytundebau ffurfiol ar raddfa fwy
3. Arwain a gwneud gwell defnydd o adnoddau
4. Canolbwyntio ar bobl er mwyn gwneud gwahaniaeth
5. Mireinio adnoddau a gostwng biwrocratiaeth
6. Bod yn enghraifft o arfer dda ar draws Cymru i rannu dysgu

Yn benodol, bydd y Bwrdd Cyflawni Integredig ar gyfer lechyd a Gofal Cymunedol yn Ynys Môn yn:

- Mynd i'r afael â'r materion a'r cyfleoedd brys sy'n codi o ail-gyflunio'r GIG a gwasanaethau awdurdodau lleol.
- Argymhell camau i oresgyn pethau sy'n rhwystro datblygiad strategol a darpariaeth gwasanaethau, gan ddatrys problemau os oes angen
- Deall amgylchedd ariannol pob sefydliad partner a chwilio am gyfleon i sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf
- Ystyried alinio/rhannu cyllidebau ac adnoddau eraill
- Hyrwyddo mentrau gweithlu ar y cyd i gefnogi newid strategol

3. Gyrwyr (Gweithredol a Strategol)

3.1 Polisi a chyfeiriad: Soniwyd droeon eisoes am y gyrwyr ar gyfer newid ac maent wedi eu nodi yn y ddogfen "Together for Health and Sustainable Social Services - Delivering Local Integrated Care". Cynigir y bydd y Bwrdd Cyflawni Integredig ar gyfer gwasanaethau iechyd a Gofal Cymunedol ar yr Ynys yn canolbwyntio ar drawsnewid ein gwasanaethau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu trefnu a'u defnyddio'n briodol i gwrdd ag anghenion pobl Ynys Môn. Mae hynny'n golygu cryfhau'r gwaith o gynllunio a chydlynu gofal a chefnogaeth, gyda'r ddau sefydliad yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i ddatblygu system iechyd a gofal cymdeithasol sy'n wirioneddol integredig ac sy'n rhoi gofal sy'n canolbwyntio ar y person a gofal person-cyfan.

Mae'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu nifer o heriau yn arbennig mewn perthynas ag integreiddio. Gellir priodoli'r heriau hynny i:

- Cynnydd yn nifer y bobl gyda chyflyrau tymor hir (oedolion a phlant), afiachusrwydd a phoblogaeth sy'n heneiddio.
- Gofal tameidiog.
- Pwysau iechyd cyhoeddus.
- Anghyfartalaeddau iechyd sy'n cynyddu.
- Llai o gyllid ond mwy o alw a disgwyliadau.

3.2 Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Mae'r mesur yn cynnwys disgwyliad clir y bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu hintegreiddio ymhellach, gan gynnwys hwyluso cyfleon ar gyfer rhannu cyllidebau a defnyddio hyblygrwyddau eraill o fewn y Ddeddf Cymorth Gwladol 1970 a Deddf Iechyd GIG 2006.

Mae'r mesur drafft yn cyfeirio'n benodol at bwerau gweinidogol arfaethedig ychwanegol a allai yrru twf gwaith partneriaeth yng Nghymru, trwy egluro'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth. Bydd Gweinidogion yn cael pwerau i orfodi creu partneriaethau pan fo achos i wneud hynny. Er enghraifft, gwneir cyfeiriad clir at yr achos i ddatblygu darpariaeth gwasanaeth integredig mewn perthynas â gwasanaethau i deuluoedd a phobl hŷn gydag anghenion cymhleth.

Gwelir y cynnig i ddatblygu Bwrdd Cyflawni Integredig ar gyfer gwasanaethau iechyd a Gofal Cymunedol yn Ynys Môn fel y cam cyntaf i roi sylw i'r meysydd hyn. Mae hynny wedi ei wreiddio'n gadarn yn y ddogfen bolisi "Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy".

Mae safbwynt y gweinidog ynghylch asiantaethau statudol yn glir: *"Our first priority is to ensure that resources are used in a more joined up way as this will make better use of the capacity that exists"*.

Mae'r ddogfen bolisi hefyd yn dwyn sylw at bwysigrwydd integreiddio ymhellach wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer plant, pobl ifanc a phobl hŷn fregus ac yng nghyswllt gwasanaethau ail-alluogi. Bydd cydlynu gwasanaethau yn y fath fodd yn gymorth i dorri i lawr y rhwystrau sydd yn aml yn amharu ar y gallu i ddarparu gwasanaethau a bydd hefyd yn cael gwared ar ddyblygu.

3.3 Gosod y Cyfeiriad (Datblygu Tîm Ardal)

Yn y ddogfen *Setting the Direction* roedd gweithio ar sail ardal yn cael ei weld fel conglfaen y model newydd ar gyfer gofal cymunedol a sylfaenol. Yn seiliedig ar boblogaethau o rwng 30,000 a 60,000, mae mwy na 60 o rwydweithiau ardal wedi eu sefydlu ar draws Cymru i gynllunio, cydlynu a sicrhau darparu gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion pobl sy'n byw yn y gymuned leol. Bydd y strwythur arfaethedig ar gyfer Bwrdd Cyflawni Integredig i

wasanaethau lechyd a Gofal Cymunedol yn ategu ac yn atgyfnerthu'r cyfeiriad polisi a nodir yn y ddogfen *Setting the Direction*.

Esblygodd Model Môn y Tîm Datblygu Gofal Cymunedol ar yr Ynys i fod yn Dîm Datblygu Ardal yn ystod 2011 ac mae'r gynrychiolaeth arno yn cynnwys Rheolwyr Gwasanaeth strategol a gweithredol o'r Gwasanaethau lechyd Sylfaenol, Cymunedol a Gofal Cymdeithasol ynghyd â Medrwn Môn ar ran y Trydydd Sector. Rôl y tîm ardal (Model Môn) yw:

- Goruchwyllo gweithrediad newidiadau *gweithredol* a modelau cydweithio ar lefel Sirol sy'n cael effaith ar BIPBC ac awdurdodau lleol, gan ategu ffocws y Timau Ardal Arweiniol
- Hyrwyddo a chyflawni'r rhaglen ymyrraeth gynnar / atal ar lefel weithredol ar draws BIPBC a Chyngor Sir Ynys Môn - yn arbennig y rheini y mae cysylltiad annatod rhyngddynt a darparu gwasanaethau integredig
- Darparu llinell atebolrwydd eglur a theg ar gyfer asiantaethau lechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector ar yr Ynys mewn perthynas â rheolaeth *weithredol* a darparu gwasanaethau.
- Cytuno mesurau *gweithredol* lleol a fydd yn tystiolaethu canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol gwell ar gyfer poblogaeth Ynys Môn.

4. Demograffi a thueddiadau (*Rheoli galwadau ac Anghenion Lleol*)


Rhagwelir y bydd nifer y bobl rhwng 16 a 64 oed yng Ngogledd Cymru yn disgyn 6% o 2008 i 2033, tra rhagwelir cynnydd o dros 60% yn nifer y bobl 65+ oed dros yr un cyfnod. O'r herwydd, bydd mwy o bobl dros 65 am bob oedolyn o oed gweithio yn y dyfodol. (Adroddiad Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus 2012

<http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/FINAL%20PHW%20Older%20People%20Annual%20Report%20-%20English.pdf>)

- Rhagwelir y bydd cynnydd o 4% ym mhoblogaeth Ynys Môn o 2006 i 2031.
- Yn 2009 dywedwyd bod 19.5% o blant Ynys Môn yn bwy mewn tlodi.
- Roedd 21.9% o boblogaeth gyfan Ynys Môn yn 65+ yn 2010, o gymharu â 18.6% yng Nghymru gyfan. Hon yw'r gyfran uchaf ond dau o bobl 65+ oed ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.
- Yn ôl y diffiniad yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd roedd 7.3% o blant a phobl ifanc 0-18 oed yn anabl, sy'n golygu cyfanswm o 1027 o blant gydag anableddau yn 2012.

Mae'r tabl isod yn dangos y % o bobl dros 75 oed y rhagwelir y byddant yn byw ym mhob un o'r 6 sir yng Ngogledd Cymru. Cydnabuwyd bod angen cydweithio i gynllunio a darparu gwasanaethau i bobl hŷn, yn arbennig yn Ynys Môn lle mae'r cynnydd canrannol yn mynd i ddyblu o 9% i ffigwr syfrdanol o 18% erbyn 2033.

Projected population, 2008-2033, % aged 75 and over
Produced by Public Health Wales Observatory, using data from the Welsh Assembly Government



Poblogaeth 65 oed a throsodd ym Môn, yn ôl oed, a ragwelir hyd 2030

	<i>Niferoedd</i>				
	2012	2015	2020	2025	2030
Pobl 65-69 oed	5,260	5,480	4,780	4,830	5,080
Pobl 70-74 oed	3,880	4,450	5,140	4,520	4,580
Pobl 75-79 oed	2,920	3,270	3,970	4,630	4,090
Pobl 80-84 oed	2,080	2,150	2,710	3,350	3,960
Pobl 85 oed a throsodd	2,070	2,290	2,640	3,380	4,420

Ffynhonnell: Uned Ystadegol Llywodraeth Cymru / Daffodil

Hawlfraint y Goron 2010

Ceir arwydd o lefelau morbidrwydd a chyflyrau tymor hir yn y cyfraddau derbyn cleifion i ysbytai. Yn Ynys Môn y mae'r raddfa uchaf ar draws Gogledd Cymru o dderbyn i ysbytai gleifion preswyl o dan 75 oed, a hynny ar gyfer y derbyniadau sydd wedi eu cynllunio - gan gynnwys derbyniadau ar gyfer llawdriniaeth a rhai ar gyfer ymchwiliadau neu driniaeth ynghyd ag argyfyngau sydd heb eu cynllunio.

Mae'r derbyniadau argyfwng i ysbytai ymhlith pobl dan 75 oed yn Ynys Môn yr uchaf ar draws Gogledd Cymru ac yn uwch na chyfradd Cymru. Mae cyfraddau derbyniadau dewisol i ysbytai ym Môn yn achos pobl dan 75 oed yn uwch na'r cyfartaledd yng Ngogledd Cymru a Chymru. Mae i saith o'r naw Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol ym Môn gyfraddau sylweddol uwch yn ystadegol na Chymru gyfan.

5. Rheoli Gwasanaethau gyda'n Gilydd

Mae strwythur newidol y boblogaeth yn golygu bod mwy o bwysau a galw ar ystod o wasanaethau e.e. gofal iechyd, gwasanaethau preswyl, tai, lles a gwasanaethau eraill sy'n cael eu defnyddio gan y boblogaeth. Mae hyn yn gofyn am gydweithio ac ymyrraeth gynnar i rymuso a chefnogi pobl (Cynllun Integredig Ynys Môn 2012).

Gan fod arian cyhoeddus yn brin, mae ymgysylltu'n effeithiol gyda'n defnyddwyr gwasanaeth a chyda chymunedau'n hollbwysig er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol i deilwrio gwasanaethau i gwrdd â'u hanghenion.

Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar nifer o brosiectau ar y cyd, gan gynnwys:

- Prosiect Un Pwynt Mynediad
- Storfeydd Offer Cymunedol
- Gwasanaeth i blant ag anableddau
- Iechyd Meddwl Oedolion
- Gweithwyr Cefnogi Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Gwasanaeth/Tîm Cefnogi Teulu Integredig
- Gofal Canolraddol
- Teleofal/Teleiechyd

Mae'r mentrau hyn yn tystio i draddodiad cryf o ymgysylltu a chydweithredu. Serch hynny mae'n amlwg y gellid sicrhau manteision pellach drwy fwy o alinio strategol a gwell llywodraethu ar y ffrydiau gwaith unigol hyn.

6. Cydnabod Ardaloedd Blaenoriaeth: Fframwaith Flaenoriaethu.

Mae'n hanfodol nad yw penderfyniadau i flaenoriaethu gwasanaethau yn cael eu seilio ar ddulliau greddfol, gwybodaeth anghyflawn neu wrthdaro gyda thargedau strategol GIG a Gofal Cymdeithasol. Mae'n bwysig bod yr effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol yn amlwg pan wneir penderfyniadau i ddarparu adnoddau i rai meysydd a dim i eraill.

Rhaid i unrhyw fframwaith blaenoriaethu felly ddarparu proses gadarn, dryloyw a theg er mwyn:

- cynyddu hyder y cyhoedd a'r claf;
- bod yn fwy effeithlon yn ei gweithrediad;
- alinio adnoddau i strategaethau a pholisïau cytunedig sy'n gwella iechyd a lles cyffredinol y boblogaeth a gwella ansawdd y gwasanaethau;
- sicrhau bod anghenion sy'n cystadlu yn cael gwrandawriad teg;
- darparu gwell gwerth am arian a gofynion dyrannu cyllideb;
- ychwanegu cyfreithlondeb i'r broses o wneud penderfyniadau;
- cyfarfod ag anghenion llywodraethu corfforaethol da;
- wedi eu sylfaenu ar sail tystiolaeth gref lle bynnag y mae hynny'n bosibl;
- yn cynnig gwybodaeth ac yn hyrwyddo cynllunio priodol i gwrdd ag anghenion y dyfodol.

Bydd angen adolygu a datblygu gwasanaethau i wneud yn siŵr eu bod yn cyflawni'r manylbau a'r safonau ansawdd a rennir. Byddai'r Bwrdd Cyflawni Integredig yn darparu llwyfan ar gyfer dull o'r fath a byddai'n cynnwys o fewn ei ddyletswyddau y gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar yr Ynys gan gynnwys blaenoriaethau ar gyfer unrhyw ddatblygiadau newydd.

7. Cynnig

O ganlyniad i'r gyrwyr ac er mwyn cyfarfod â'r heriau y manylwyd arnynt uchod rydym yn cynnig y dylid sefydlu Bwrdd Cyflawni Integredig i helpu gyda datblygu Gwasanaethau Iechyd Cymunedol a Gofal ym Môn.

Caiff y Cynnig ei ddatblygu mewn mwy o fanylder isod ac rydym yn hyderus y bydd yn darparu ffordd ymlaen glir ar gyfer gweithio tuag at integreiddio'r ddarpariaeth o wasanaeth yn ffurfiol rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bydd sefydlu Bwrdd Cyflawni Integredig ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol ym Môn yn darparu mewnbyn gweithredol ac arweiniad i fod â throsolwg o'r broses, llywodraethu a pherfformiad gwasanaeth hollol integredig o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn bwriadu i'r Bwrdd fod yn weithredol o Wanwyn 2014 ymlaen.

Atebolrwydd:

Bydd y Bwrdd Cyflawni Integredig yn atebol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phrosesau democrataidd o fewn yr Awdurdod Lleol. Serch hynny, fe ddylai aelodau'r Bwrdd Darparu fod â digon o awdurdod i ymrwmo eu sefydliadau i ffordd benodol o weithredu ar sail gwybodaeth am flaenoriaethau a chyfeiriad strategol a gytunwyd.

Bydd y Bwrdd Cyflawni Integredig ar gyfer Iechyd a Gofal Cymunedol ym Môn yn cymryd arno'r rôl o "fforwm sirol". Y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau allweddol i'r grŵp strategol hwn fydd siapio, cytuno, mesur a monitro datblygiad strategol iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel sirol gan sicrhau ffocws ar brofiad integredig i gleifion / defnyddwyr gwasanaeth yn cynnwys:

- Bod yn gyfrwng ar gyfer cael trosolwg o weithrediad gwasanaethau integredig ac ar y cyd
- Darparu'r trefniadau llywodraethu ar y cyd ar gyfer gwasanaethau integredig y cytunwyd arnynt
- Gyrru newid a thrawsnewid gwasanaethau, yn cynnwys y cyd-flaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Integredig.

Mae'r Bwrdd Cyflawni yn bwriadu sicrhau aliniad strategol gyda gwaith y Bwrdd Gwasanaeth Lleol i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus drwy ddatblygu fframweithiau gwasanaeth integredig wedi eu seilio ar gytundebau ffurfiol.

Yn unol â sefydliadau y mae ganddynt weithdrefnau effeithiol ar gyfer mesur, rheoli ac adolygu gwelliant mewn iechyd, a datblygu canlyniadau mesuradwy i'w poblogaeth, bydd gan y Bwrdd Cyflawni nodweddion a fydd yn cynnwys:

- Y gred bod gwella iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ei integreiddio gyda chylchoedd cynllunio gwasanaeth a busnes Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr / Cyngor Sir Ynys Môn.
- Defnydd adeiladol o swyddogaeth sgrïwtini neu archwilio gyda phartneriaid i adolygu ac i ddylanwadu ar benderfyniadau lleol pwysig ac i fynd i'r afael ar y cyd ag anghyfartaleddau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Proses gyfathrebu glir mewn perthynas â strategaeth a pherfformiad sydd yn dryloyw o fewn y sefydliad, i gydranddeiliaid, ac i'r boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu.
- Fframwaith mesur perfformiad cytbwys ar gyfer gwella iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â mesurau canlyniadau a rennir.
- Y gallu i adlewyrchu ar yr arferion presennol wrth reoli perfformiad y bartneriaeth, gan fod yn ddigon aeddfed i nodi'r meysydd lle cafwyd cynnydd da a rhai y mae angen eu datblygu.

Cysylltiadau i bartneriaethau eraill e.e. Bwrdd Gwasanaeth Lleol, Bwrdd Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc - gwneir y cysylltiadau'n seiliedig ar faes y testun (h.y. integreiddio agweddau o wasanaethau plant drwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, mentrau ar y cyd ar gyfer mesurau atal cychwynnol drwy'r Bwrdd Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Cytundebau Partneriaeth drwy'r Bwrdd Iechyd Lleol ac ati).

Trefniadau Llywodraethu:

Bydd y Bwrdd Cyflawni yn lliniaru risgiau drwy:

- **Risg Strategol:** Darparu sicrwydd bod unrhyw faes blaenoriaeth yn seiliedig ar dystiolaeth glir oangen (yn cynnwys cyfeiriad Polisi/Strategaeth Genedlaethol). Bydd swyddogion sy'n atebol yn sicrhau bod prosiectau'n cael eu cefnogi *mewn egwyddor* o fewn eu sefydliadau perthnasol, gyda golwg ar liniaru unrhyw risg mewn perthynas â pherchnogaeth ar lefel Sefydliadol (h.y. Bwrdd / proses democrataidd)
- **Risg Weithredol:** Nodi risgiau ariannol i unrhyw un o'r sefydliadau o ganlyniad uniongyrchol i'r cynlluniau a fwriedir (yn cynnwys risg o ran gweithredu cynlluniau arloesol, materion AD, newid Diwylliannol, a risgiau tebygol i enw da).
- **Risg Adrodd yn ôl:** Cyfathrebu clir i'r ddau gyfeiriad rhwng y Bwrdd Cyflawni arfaethedig, Timau Lleoliaeth a grwpiau gweithredol mewn perthynas â rhannu gwybodaeth a nodi risgiau clinigol/sefydliadol/gweithredol pan yn gweithredu cynlluniau arloesol.
- **Risg Cydymffurfiaeth:** Bydd y Bwrdd Cyflawni yn darparu trosolwg strategol yn arbennig mewn perthynas â risgiau cyfreithiol a rheolaethol unrhyw gynlluniau arloesol arfaethedig ar gyfer integreiddiad. Bydd y Bwrdd Cyflawni yn darparu sicrwydd i'w hasiantaethau perthnasol ac i'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol bod risgiau'n cael eu rheoli mewn perthynas uniongyrchol â materion llywodraethu proffesiynol.
- **Prosiectau Penodol:** Bydd y Bwrdd Cyflawni yn darparu'r trefniadau llywodraethu mewn perthynas penodol â ffrydiau gwaith / prosiectau ar gyfer gweithio integredig megis:
 - Model Môn - Tîm Arwain Lleoliaeth
 - Un Pwynt Mynediad
 - Model Sirol ar gyfer Iechyd Meddwl – Adran 33
 - Anabledd Dysgu - integreiddio gwasanaethau.
 - Adran 33 - Gwasanaethau Plant ag Anableddau
 - Ymchwilio ymhellach i'r bwriad o gyflwyno Gweithwyr Generig yn ehangach
 - Cyd-leoli / integreiddio timau iechyd a gofal cymdeithasol

Aelodaeth Arfaethedig:

Uwch Reolwr Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Partneriaeth Gymunedol BIPBC
Cyfarwyddwr Cymuned Corfforaethol Ynys Môn
2 Aelod Awdurdod Lleol (i'w gadarnhau)
Arweinydd Cymuned CPG Cymunedol (BIPBC) (i'w gadarnhau)
Cynrychiolydd enwebedig a Chadeirydd Meddygon Teulu
Cadeirydd Model Môn / Tîm Arwain Lleoliaeth

8. Argymhellion

Gofynnir bod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn dod I farn:-

Bod BIPBC a Phroses Ddemocrataidd Cyngor Sir Ynys Môn yn cymeradwyo mewn egwyddor y cynigion i ddatblygu Bwrdd Cyflawni Integredig ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymunedol a Gofal ar Ynys Môn.

A1. Sefydlu'r Bwrdd i fod yn weithredol erbyn Ebrill 2014, gan gynnwys aelodau etholedig

A2. I'r Bwrdd gytuno ar raglen waith i'w gyflwyno o fewn i drefniadau rheolaethol y Cyngor

Enw awdur yr adroddiad: Gwen Carrington
Teitl Swydd: Cyfarwyddwraig Cymuned
Dyddiad: 6 Ionawr, 2014

Atodiad 1: Aelodau'r Bwrdd sy'n gyfrifol am sefydlu'r Bwrdd Cyflawni Integredig Arfaethedig

Atodiad 2: Diagram o Fframwaith Atebolrwydd

Atodiad1: Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sefydlu'r Bwrdd Cyflawni Integredig Arfaethedig

Dyma aelodau'r Bwrdd sydd i fod yn gyfrifol am sefydlu'r Bwrdd Cyflawni Integredig arfaethedig:

Enw	Dynodiad	Asiantaeth
Gwen Carrington	Cyfarwyddwr Cymuned	Cyngor Sir Ynys Môn
Trystan Pritchard	Uwch Reolwr	Partneriaethau Gwynedd ac Ynys Môn
Anwen Huws	Pennaeth Gwasanaethau Plant	Cyngor Sir Ynys Môn
Gareth Llwyd	Rheolwr Uned Cefnogi Busnes	Cyngor Sir Ynys Môn
Emily Whall	Swyddog Gwella Cydweithredu, Prosiect ESF DCIF	Cyngor Sir Ynys Môn
Wyn Thomas	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Datblygu Partneriaeth Gymunedol	BIPBC
Dr Stephen McVicar	Pennaeth Lleoliaeth Meddygon Teulu, Tîm Arwain Lleoliaeth (Model Môn)	BIPBC
Eleri Lloyd	Rheolwr Gwella a Datblygu Partneriaeth	BIPBC
Sarah Andrews	Prif Swyddog Iechyd Cyhoeddus	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Catherine Robinson	Athro Ymchwil Polisi Cymdeithasol Pennaeth Gwyddorau Cymdeithasol	Prifysgol Bangor

Atodiad 2: Fframwaith Atebolrwydd

